**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-749
Ein cyf/Our ref: VG/00774/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru

10 Mai 2017

Annwyl Gadeirydd,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth am ddeiseb gan Ysgol Caer Drewyn sy'n gofyn am ail-sefydlu gwasanaeth uned ddeintyddol symudol yn ardal y Bala-Wrecsam.

Ysgrifennodd fy swyddogion at Ysgol Caer Drewyn ar 13 Ionawr i egluro y bu'n rhaid peidio â chynnig y gwasanaeth deintyddol clinigol i'r ysgol am y tro gan fod yr uned symudol bellach yn mynd yn hen ac nad oedd yn addas at ei diben. Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn parhau i ddarparu rhaglen iechyd y geg Cynllun Gwên i'r ysgol.

Rwy'n deall bod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yr adnoddau angenrheidiol a'i fod felly'n bwriadu ail-gyflwyno'r gwasanaeth yn 2017-18. Bydd y broses o gaffael uned ddeintyddol symudol arall yn dechrau cyn gynted â phosibl, ond gallai gymryd amser i'w chwblhau oherwydd natur arbenigol y cyfleuster.

Fel arall, mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn darparu gofal deintyddol GIG yng Nghorwen a Dolgellau. Yn y tymor hirach, mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i greu dwy ddeintyddfa yng Nghanolfan Iechyd Corwen i wasanaethu oedolion a phlant sy'n byw yn yr ardal.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.